**Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**National Assembly for Wales | Research Service**

# Llysgenhadon llesiant mewn ysgolion

Y Pwyllgor Deisebau | 21 January 2020
Petitions Committee | 21 Ionawr 2020

**Cyfeirnod:** RS19/11038-7

**Rhif y ddeiseb**: P-05-924

**Teitl y ddeiseb:** Sicrhau bod Llysgenhadon Llesiant ym mhob ysgol yng Nghymru

**Testun y Ddeiseb:** Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn cyflwyno Llysgenhadon Llesiant hyfforddedig, fel bod pob plentyn yn cael cyfle i gael cefnogaeth cyfoedion gan fyfyrwyr model rôl sydd wedi'u hyfforddi i fod yn gyfaill i ddisgyblion sy'n agored i niwed yn ystod amser egwyl ac amser cinio, a fydd yn rhoi gwybod am faterion bwlio a bod yno fel ffrind i ddisgyblion a allai deimlo'n unig ar adegau penodol drwy gydol y dydd. Rydym yn gobeithio y bydd Rolau Llysgenhadon Llesiant yn datblygu/esblygu i redeg mentrau mewn ysgolion, yn y sir ac yn genedlaethol, er mwyn sicrhau bod ymgyrch o neges glir o ddim goddefgarwch i fwlio a bod lles yr holl ddisgyblion yn cael ei roi ar y pwys mwyaf ym mhob ysgol, i gefnogi hawliau'r plentyn ymhellach. Rydym yn gobeithio y bydd y fenter hon yn mynd ymhellach er mwyn helpu i leihau faint o fwlio a welir mewn ysgolion ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus mewn ysgolion ledled Cymru.

**Gwybodaeth ychwanegol:** Yn 2016, cawsom ein dewis i gynrychioli Cymru fel rhan o brosiect ENABLE, menter yn y DU i dreialu gwersi gwrth-fwlio. Roedd rhan o'r fenter yn cynnwys hyfforddi disgyblion i gefnogi cyfoedion. Fodd bynnag, penderfynwyd mynd â hyn gam ymhellach drwy hyfforddi disgyblion i ddod yn llysgenhadon gwrth-fwlio. Ar ôl llawer o drafod gyda'n Senedd Ysgol,

esblygwyd y cynllun llysgenhadon, gan newid ei enw i lysgenhadon llesiant. Roeddem am symud i ffwrdd o ddefnyddio'r gair bwlio yn rhy aml gan ein bod yn teimlo nad oedd disgyblion yn deall y gwahaniaeth rhwng gwrthdaro a bwlio. Roeddem hefyd eisiau i ddisgyblion wybod mai llesiant yw ein prif flaenoriaeth. Bydd disgyblion sy'n rhan o'r cynllun yn crwydro ardaloedd o amgylch yr ysgol, yn sylwi ar ddisgyblion sydd ar eu pennau eu hunain neu os ydyn nhw'n gweld bwlio yn digwydd maen nhw'n rhoi gwybod i'r oedolyn agosaf y maent yn ei weld, o'r Pennaeth i oruchwylwyr cinio.

Rydyn ni'n cwrdd unwaith y mis fel grŵp a phob blwyddyn rydyn ni'n esblygu'r cynllun ymhellach. Ar hyn o bryd rydyn ni'n edrych ar feinciau cyfeillion fel bod disgyblion sy'n teimlo'n unig yn gallu eistedd yno a bydd llysgennad llesiant yno i'w cefnogi. Mae llawer o'n llysgenhadon hefyd yn aelod o'r Bwrdd Amddiffyn Iau o ganlyniad.

## Y FLAENORIAETH A RODDIR I LESIANT MEWN YSGOLION YNG NGHYMRU

### Strategaeth Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio codi lefel y flaenoriaeth a roddir i lesiant disgyblion yn yr agenda gwella addysg. Dyma un o'r prif wahaniaethau rhwng ei chynllun gweithredu addysg, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, a rhagflaenydd y cynllun hwnnw, sef *Cymwys am Oes*. Un o dri amcan galluogi y Cynllun yw: **"Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles'.** Mae'r cynllun yn nodi'r canlynol:

> Mae plant a phobl ifanc sydd â c**hydberthnasau cryf ac ymdeimlad cadarnhaol o'u hunain** – ac sy'n gallu deall a **rheoli eu hiechyd a'u hemosiynau eu hunain** – mewn sefyllfa well i gyflawni eu potensial llawn yn y dyfodol. [fy mhwyslais i]

Dywedodd Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, wrth gynhadledd Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (ADEW) ym mis Ionawr 2018, **fod Cymru ar drobwynt** yn y modd y mae ysgolion yn ymdrin â llesiant plant a phobl ifanc. Dywedodd fod yn rhaid i hyn fod yn rhan o ethos yr ysgol a'i weithredu'n gyffredinol gan fod gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae a bod athrawon mewn sefyllfa dda i sylwi ar newidiadau yn ymddygiad disgyblion.

### Arolygiadau Estyn

Mae gan lesiant le mwy amlwg nag yr oedd ganddo eisoes yn y **Fframwaith Arolygu Cyffredin**, sef y fframwaith y mae Estyn wedi'i ddefnyddio ers mis Medi 2017. Un o feysydd arolygu'r fframwaith yw 'Llesiant ac agweddau at ddysgu'.

Roedd y dystiolaeth **a gyflwynwyd gan Estyn** i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) yn nhymor yr hydref 2017 yn nodi bod y corff wedi **cryfhau ei ffocws ar les emosiynol yn ei drefniadau arolygu newydd,** ac roedd yn cynnwys darnau o'r canllawiau perthnasol ar gyfer ei arolygwyr.

### Ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl fel ysgol gyfan

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu 'dull ysgol gyfan' o gefnogi iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ymhlith disgyblion. Mae hyn yn dilyn **ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**, a gyhoeddodd adroddiad ym mis Ebrill 2018, gan dynnu sylw at yr **angen am newid mawr** o ran sut y mae anghenion plant a phobl ifanc yn y maes hwn yn cael eu diwallu.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol**, o dan gyd-gadeiryddiaeth y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â lles

emosiynol a lles iechyd meddwl, a hynny fel rhan o ymagwedd system-gyfan sydd hefyd yn cydnabod y cysylltiadau rhwng lles meddyliol a lles corfforol. Fel y mae llythyr y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor hwn ynghylch y ddeiseb yn ei nodi, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n drafftio **canllawiau newydd i ysgolion** ynghylch ymgorffori'r dull ysgol gyfan hwn.

**CANLLAWIAU GWRTH-FWLIO**

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ganllawiau gwrth-fwlio newydd**, sy'n disodli'r canllawiau cychwynnol (*Parchu Eraill, 2003*) a'r deunyddiau atodol (2011).

Mae'r **canllawiau newydd yn statudol**, ac mae'r statws hwnnw wedi cael ei groesawu gan Gomisiynydd Plant Cymru, a oedd eisoes wedi beirniadu'r bwriad i roi statws ymgynghorol anstatudol i'r canllawiau. Dywedodd y Comisiynydd, Sally Holland, wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifac and Addysg ar **6 Tachwedd 2019**:

> … I'm absolutely thrilled because the Minister has announced today that the guidance will be statutory, which has been a key call from my office for a number of years, and that **schools will be required to record and monitor bullying incidents**. They will be required to monitor the effectiveness of their interventions to prevent bullying and to tackle bullying. They'll be required to look at the outcomes on bullying incidents. **Local authorities will also have statutory requirements** to look at the effectiveness of anti-bullying strategies across a local authority. (…)
>
> … our response [to the consultation on the draft guidance] was … that it wasn't good enough in the draft, because the draft was non-statutory. This is a really good example, I think, of a Minister actually—because the draft didn't even give the option on statutory—really listening to feedback and it being a really genuine consultation, because she's responded to that feedback and has announced today the advanced anti-bullying work that's going forward. So, I think it's got a much bigger chance now of being consistently effective.

Yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2018-19 nododd y Comisiynydd Plant fod **bwlio yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i blant a phobl ifanc**, fel yr amlygodd ei hymgynghoriad Cymru gyfan, *Beth Nawr*, a ddangosodd mai bwlio oedd yr ail eitem ar eu rhestr o bryderon.

**Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU**

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd a'r 'Ysgolion Arloesi', wedi datblygu cwricwlwm newydd i Gymru, yn dilyn *Dyfodol Llwyddiannus*, sef yr adolygiad a gynhaliwyd gan yr Athro Graham Donaldson yn 2015.

Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei seilio ar bedwar diben a chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Un o'r meysydd dysgu a phrofiad yw Iechyd a Lles. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cwricwlwm drafft ar gyfer Cymru ym mis Ebrill 2019. Yn dilyn ymarfer adborth, mae wrthi'n mireinio'r ddogfen ymhellach cyn ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

Caiff y Cwricwlwm newydd i Gymru ei gyflwyno fesul cam o **fis Medi 2022**. Bydd yn cael ei addysgu i ddechrau yn yr ysgol gynradd a Blwyddyn 7 cyn mynd ymlaen i Flwyddyn 8 yn ystod 2023/24 ac yn y blaen wrth i'r disgyblion hyn symud i fyny drwy'r ysgol nes eu bod yn cyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio bod y Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'i seilio ar ddibenion yn hytrach na'i ddiffinio yn syml gan ei gynnwys. Gan hynny, nid oes 'rhaglenni astudio', a bydd llai o ragnodi o ran yr hyn y mae'n rhaid

ei ddysgu nag yn y cwricwlwm presennol. Bydd y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar ddull tair-ochrog o ran **Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad.**

O fewn pob maes dysgu a phrofiad, mae cyfres o ddatganiadau **'Yr Hyn sy'n Bwysig'**, a fydd yn sylfaen i'r hyn a addysgir. Un o bum datganiad 'Yr Hyn sy'n Bwysig' ym maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles yw '**Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddynt yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol**'.

Mae'r canllawiau statudol drafft ar faes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles yn nodi:

> Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn helpu'r dysgwyr i ddeall sut y mae iechyd meddwl a lles emosiynol unigolion yn dylanwadu ar y ffordd maent yn meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn. Bydd hefyd yn helpu dysgwyr i archwilio'r cysylltiadau rhwng profiadau bywyd a lles meddyliol ac emosiynol. Drwy ddeall yr amodau sy'n hyrwyddo ac yn effeithio ar iechyd meddwl a lles emosiynol, caiff dysgwyr eu cynorthwyo i ymdopi â'r profiadau y byddant yn dod ar eu traws yn ystod eu bywyd. Cânt hefyd eu cynorthwyo i ddatblygu eu gallu i ganolbwyntio ar y ffordd y maent yn meddwl ac yn teimlo yn ystod eu profiadau. Yn ogystal â hyn, byddant yn archwilio sut maent yn canfod profiadau. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr feithrin sgiliau hunanymwybyddiaeth ac empathi. Mae hunanymwybyddiaeth yn galluogi dysgwyr i fod yn agored i dderbyn emosiynau ac i fyfyrio arnynt, ac mae hyn yn eu helpu i addasu eu hymddygiad a'u gweithredoedd i wahanol sefyllfaoedd. Mae hyn yn ei dro yn galluogi dysgwyr i weithredu ag empathi, cydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt hwy eu hunain ac at eraill.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ddiwygio'r cwricwlwm mewn erthyglau blog a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad **ym mis Mai 2019** ac **ym mis Ionawr 2019**.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.